## ADRODDIAD Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN AR DDARPARU GWYBODAETH

---

## PWNC: DARPARU GWYBODAETH I DWRISTIAID (TREFDRAETH A DINBYCH-Y-PYSGOD)

Diben yr Adroddiad
Cytuno ar ffocws newydd i waith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i gefnogi'r economi ymwelwyr yn Sir Benfro.

Cyflwyniad
Fis Mai 2016, roedd yr Awdurdod wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i "ymchwilio i newidiadau posibl o ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr, gan gynnwys rolau Canolfannau Croeso a Chanolfannau Ymwelwyr yn y dyfodol".

Penodwyd y canlynol yn aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

- Cyngh Mike James;
- Cyngh Lyn Jenkins;
- Cyngh Bob Kilmister;
- Cyngh David Rees;
- Christine Gwyther; a
- Ted Sangster

Yn y cyfarfod cyntaf penodwyd y Cyngh. Mike James yn Gadeirydd a Christine Gwyther yn Is-gadeirydd.

Cyfarfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen 5 gwaith rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Awst 2016. Yn ogystal, trefnwyd ymweliadau safle ym mhob un o'r 5 canolfan a redir gan yr Awdurdod. Cynorthwywyd gwaith y Grŵp gan y Cyfarwyddwr Cyflawni a Darganfod.

Fel rhan o'i waith bu'r Grŵp yn ystyried y newidiadau blaenorol a wnaed i'r Canolfannau Croeso a'r Canolfannau Ymwelwyr, ynghyd â'r patrymau o ran gwybodaeth ariannol a nifer yr ymwelwyr, a derbyniwyd cyflwyniadau ar waith:

- y Tîm Parcmyn;
- y Tîm Darganfod; a'r
- Tîm Cyfathrebu, Marchnata a Graffeg.

Fodd bynnag, barn 'Gweithgor Darparu Gwybodaeth' yr Awdurdod yw bod angen i'r Awdurdod weithredu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau i ymwelwyr yn awr er mwyn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant twristiaeth lleol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn ogystal ag anghenion preswylwyr Sir Benfro.

Ar ôl ystyried y gwahanol ffyrdd y mae'r Awdurdod yn darparu gwybodaeth i ymwelwyr (ac i'r bobl leol) roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn barnu y dylai ganolbwyntio ar sut y mae'r Awdurdod yn rheoli ei Ganolfannau Ymwelwyr a'r atyniadau i ymwelwyr.

Canolfannau Ymwelwyr ac Atyniadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) ar hyn o bryd yn rheoli'r canolfannau ymwelwyr ac atyniadau canlynol:

- Bryngaer Oes Haearn Castell Henllys;
- Castell a Melin Caeriw;
- Canolfan Ymwelwyr Oriel y Parc ac Oriel Tirluniau;
- Canolfan Croeso Trefdraeth; a
- Chanolfan Ymwelwyr y Parc yn Ninbych-y-pysgod.

Mae'r pum safle a restrir uchod wedi bod yn elfen bwysig o wasanaethau wyneb-yn-wyneb yr Awdurdod â'r ymwelwyr ar hyd y blynyddoedd, ac ar hyn o bryd maent yn rhan o rwydwaith ehangach o safleoedd gwybodaeth i dwristiaid ar hyd a lled y sir. Mae'r pum safle ar hyn o bryd yn costi £471,000 y flwyddyn i'r Awdurdod eu rhedeg ac maent ar y cyd yn delio â rhyw 300,000 o gwsmeriaid y flwyddyn.

Cydnabyddir yn gyffredinol bod y canolfannau uchod yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i ymwelwyr (mae Castell Henllys, Castell Caeriw ac Oriel y Parc i gyd wedi cael Tystysgrifau Rhagoriaeth drwy Trip Advisor) sy'n gymorth i'r Awdurdod gyflawni ei ddiben eilaidd (sef "hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol ") tra'n ychwanegu gwerth sylweddol at brofiad yr ymwelydd yn Sir Benfro ac yn darparu gwasanaethau pwysig i'r trigolion lleol yn ogystal.

Newidiadau blaenorol i'r Canolfannau Ymwelwyr
Bu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried y gwaith a wnaed gan yr Awdurdod i adolygu ei ganolfannau ymwelwyr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r broses adolygu wedi canolbwyntio ar dair blaenoriaeth benodol:

1. Sicrhau bod portffolio presennol yr Awdurdod o ganolfannau ymwelwyr ac atyniadau mor gost effeithiol ag y bo modd a'u bod yn 'werth yr arian' o ran y gost i'r 'pwrs cyhoeddus';
2. Roedd yr ail gam yn canolbwyntio ar gael gweledigaeth strategol glir ar gyfer canolfannau a safleoedd yr Awdurdod i ymwelwyr sy'n gosod anghenion trigolion ac ymwelwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau; ac
3. Roedd y cam olaf yn canolbwyntio ar 'brawfesur dyfodol' ein canolfannau a safleoedd i ymwelwyr drwy ymchwilio i fodelau eraill o gyflwyno'r gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid yn y dyfodol.

Cam 1
Mae cyllideb yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi gostwng 12% dros y 5 mlynedd diwethaf gyda chanolfannau ac atyniadau'r Awdurdod i ymwelwyr wedi llwyddo i ostwng 17.5% ar eu costau gweithredu dros yr un cyfnod (gweler y tabl isod).

| | 2011/12 | 2016/17 | £ Gostyngiad | % Gostyngiad |
|---|---|---|---|---|
| Costau Gros Rhedeg y Canolfannau | 570 | 470 | 100 | 17.54% |
| Grant ac Ardoll yr APC | 4492 | 3940 | 552 | 12.29% |

Cam 2

Mae'r Awdurdod yn dilyn model o redeg ein canolfannau ymwelwyr sydd â'r nod o ganolbwyntio fwyfwy ar y cwsmer tra'n sicrhau ein bod yn ategu'r hyn sy'n cael ei 'gynnig i dwristiaid' ar raddfa fwy eang yn Sir Benfro. Nodir isod y prif flaenoriaethau ar gyfer canolfannau ymwelwyr ac atyniadau yr Awdurdod:

**CYSONDEB** – ffocws cliriach ar gysylltu gwasanaethau'r Awdurdod i ymwelwyr â'r canlyniadau a glustnodir yn y Cynllun Corfforaethol, gan sicrhau bod gwahaniaeth clir rhwng ein gwasanaethau ni â'r rhai a ddarperir gan gyrff twristiaeth eraill yn lleol, a bod ein penderfyniadau yn seiliedig ar anghenion y cwsmer.

**CYMUNEDAU** - sicrhau bod gwasanaethau'r Awdurdod i ymwelwyr yn darparu manteision pendant i'r trigolion lleol yn ogystal â'r nifer fawr o ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Cyfrannu at fywyd y gymuned leol a dyheadau economaidd-gymdeithasol ehangach Sir Benfro.

**CYDLYNU** - gweithio gyda'r Pencadlys ac ar draws safleoedd ymwelwyr yr Awdurdod, yn ogystal â gyda sefydliadau twristiaeth lleol eraill yn Sir Benfro, er mwyn gwneud y mwyaf o'r hyn a gynigir i dwristiaid yn lleol (megis croes-hyrwyddo cestyll, hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, ac ati).

**MASNACHOL** - gwella ffocws masnachol ein canolfannau ymwelwyr, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau prin ac i sicrhau bod y gwasanaethau ymwelwyr a gynigir yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir.

Cam 3

Sefydlodd yr Awdurdod Weithgor ar Ddarparu Gwybodaeth i Ymwelwyr fis Mai 2015 i edrych yn benodol ar sut y gallai modelau newydd o ddarparu gwasanaethau wella gwasanaethau'r Awdurdod i ymwelwyr.

Yn benodol, roedd y gweithgor wedi canolbwyntio ar y posibiliadau o weithio mewn cydweithrediad agos â'r sector preifat a sefydliadau'r gymuned leol i ddarparu ystod fwy 'cydlynol' o wasanaethau i ymwelwyr sy'n lleihau portffolio'r Awdurdod o adeiladau gan ffafrio gwasanaeth mwy teg sy'n canolbwyntio ar y bobl.

Yr Achos dros Newid

Twristiaeth yw un o ddiwydiannau pwysicaf Sir Benfro, sydd werth ychydig o dan £500 miliwn i Sir Benfro[1], a'r cyflogwr mwyaf yn y sector preifat sy'n cynrychioli 35% o gyfanswm y gweithlu[2].

[1] Adroddiad STEAM, Cyngor Sir Penfro, 2009 (http://www.tourismhelp.co.uk/content.asp?id=339)

[2] Dr. Steven Jones, Cyfarwyddwr Datblygu, Cyngor Sir Penfro, Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg ac Archwilio Economi, 16 Medi 2010 (http://mgenglish.pembrokeshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=292&MId=2123&Ver=4)

Mewn amrywiol gyrchfannau ar arfordir Sir Benfro, gan gynnwys lleoliadau allweddol o fewn y Parc Cenedlaethol, mae twristiaeth yn chwarae hyd yn oed fwy o rôl. Er enghraifft, mae adroddiad gan Brifysgol Sheffield Hallam[3] wedi edrych ar gyflogaeth, allbwn economaidd a thueddiadau mewn cyrchfannau a threfi glan môr gan gynnwys Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot ac Abergwaun. Mae'r adroddiad yn dangos:

- mai cyflogaeth gydol y flwyddyn ar gyfartaledd a gefnogir gan dwristiaeth yn Ninbych-y-pysgod, Saundersfoot ac Abergwaun yw 3,700 o swyddi;
- fel canran o'r holl swyddi, mae'r swyddi hyn yn 53% yn Ninbych-y-pysgod, 49% yn Saundersfoot a 21% yn Abergwaun (y tu allan i'r Parc);
- mai'r amcangyfrif o'r allbwn blynyddol sydd i'w briodoli'n uniongyrchol i dwristiaeth yw £33 miliwn yn Ninbych-y-pysgod, £9 miliwn yn Saundersfoot a £7 miliwn yn Abergwaun.

Fodd bynnag, er gwaethaf bod yr economi leol yn dibynnu ar dwristiaeth, mae'n amlwg bod ymwelwyr dros y 15 mlynedd diwethaf yn gwneud llai o deithiau i lan y môr yng Nghymru, gyda gostyngiad yn nifer y teithiau a'r nosweithiau a dreuliwyd gan ymwelwyr o wledydd Prydain yn gyffredinol ar arfordir Cymru. Mae'r cyfran glan môr o farchnad wyliau y DU yng Nghymru wedi gostwng yn ddiweddar[4].

O ganlyniad, er gwaethaf pwysigrwydd twristiaeth i economi Cymru (sy'n cynrychioli tua 5.8% o'r GDP yng Nghymru[5]) mae'r diwydiant yn parhau i fod yn gyfnewidiol ac yn agored i newid sylweddol oherwydd ystod o ffactorau sydd yn aml y tu hwnt i reolaeth sefydliadau yn Sir Benfro megis cryfder y bunt, y tywydd sy'n newid yn gyson, digwyddiadau tymhorol sy'n tarfu neu'n tynnu sylw ymwelwyr posibl (megis llifogydd mawr) neu newidiadau ehangach yn yr hinsawdd wleidyddol (megis y rhai sy'n gysylltiedig â phenderfyniad diweddar y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd).

Law yn llaw â'r uchod, mae'r twf aruthrol yn y nifer sy'n berchen ar ffôn-clyfar a hwylustod cysylltu â'r ffynonellau gwybodaeth ar y we, wedi trawsnewid y ffordd y mae pobl yn ymchwilio, yn llogi ac yn mwynhau eu gwyliau. Mae hyn yn arwain at ddiwylliant 'munud olaf' sy'n dwysau natur dymhorol economi twristiaeth Sir Benfro, ac yn golygu bod ymwelwyr yn llawer mwy gwybodus cyn cyrraedd y sir ac yn llai dibynnol ar wasanaethau ymwelwyr traddodiadol megis canolfannau croeso i wella eu profiad gwyliau.

Hefyd yn holl bwysig yn hyn i gyd, mae angen i'r Awdurdod ddiffinio ei rôl benodol yn fwy clir o fewn y cyd-destun ehangach o ddarparu twristiaeth yn lleol. Cyngor Sir Penfro sydd â'r rôl arweiniol o ran datblygu economaidd a datblygu twristiaeth yn Sir Benfro, a hwy sy'n gyfrifol am y rôl gyffredinol o ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr

---

[3] Y Diwydiant Twristiaeth Glan Môr yng Nghymru a Lloegr - cyflogaeth, allbwn economaidd, lleoliad a thueddiadau, Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol (CRESR), Prifysgol Hallam Sheffield, Mehefin 2010 (http://www.shu.ac.uk/_assets/pdf/cresr-seaside-tourism-report.pdf)

[4] Strategaeth Twristiaeth Arfordirol, Llywodraeth Cymru, 2008 (http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/Tourism/090612coastaleng.pdf)

[5] Gwefan Cynghrair Twristiaeth Cymru - http://www.tourismalliance.org.uk/en/tourism-the-welsh-economy/

drwy eu rhwydwaith presennol o Ganolfannau Croeso integredig mewn amrywiol safleoedd ledled y sir.

Barn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen oedd bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio ar feysydd gwaith lle mae'n ychwanegu'r gwerth mwyaf drwy ei arbenigedd mewn cadwraeth a dehongli. O ganlyniad, mae'r tair canolfan mwy o faint (Oriel y Parc, Castell Caeriw a Chastell Henllys) yn cael eu gweld fel safleoedd lle mae'r hyn a gynigir i ymwelwyr yn llawer gwell drwy gyfranogiad uniongyrchol yr Awdurdod. Serch hynny, roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gytûn y gellir cyflwyno gwybodaeth mwy cyffredinol i dwristiaid, a wneir ar hyn o bryd yn Nhrefdraeth ac yn Ninbych-y-pysgod, mewn ffyrdd gwahanol heb fod angen i'r Awdurdod gymryd rôl arweiniol uniongyrchol.

Modelau Newydd / Rhaglenni Newydd
O ganlyniad, mae'r newidiadau a nodir uchod ynghyd â'r angen am greu gwasanaeth sy'n 'addas i'r diben' ar gyfer yr heriau y bydd yr Awdurdod yn eu hwynebu yn y dyfodol, yn gyfle i gyflwyno ein gwasanaethau gwybodaeth mewn ffordd wahanol.

Cytunodd y gweithgor bod y rhestr ganlynol neu brosiectau posibl yn rhoi trosolwg da o'r mathau o wasanaethau y dylai'r Awdurdod geisio eu cyflwyno yn y blynyddoedd sydd i ddod.

| **Menter** | **Buddsoddiad** |
|---|---|
| *Golwg ar y Parc - Parkwise* – rhaglen hyfforddi sydd wedi'i theilwra i hyfforddi staff busnes yn Sir Benfro i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Parc Cenedlaethol i ymwelwyr (gan greu rhwydwaith o 'ganolfannau croeso' anffurfiol yn seiliedig ar fusnes). | £10,000 – deunyddiau hyfforddi, gweithgareddau marchnata ac amser staff ychwanegol i'w gweithredu. |
| *Cysylltiadau Naturiol - Naturally Connected* – prosiect i hyrwyddo bioamrywiaeth i fusnesau twristiaeth yn Sir Benfro. Ennyn ymwybyddiaeth o'r bioamrywiaeth sy'n bresennol ar safleoedd busnes allweddol, a darparu cynllun gweithredu i wella bioamrywiaeth ar y safle. | £5,000 – deunyddiau hyrwyddo ac amser staff ychwanegol. |
| *Digwyddiadau 'Pop-yp' Tymhorol* - darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau 'pop-yp' newydd a chyffrous ar draethau a safleoedd busnes allweddol (safleoedd gwersylla mawr, safleoedd atyniadau mawr, ac ati) yn ystod tymor yr haf 2017 a thu hwnt. | £15,000 – dyfeisio rhaglen, deunyddiau marchnata, recriwtio staff tymhorol, hyfforddi gwirfoddolwyr a sicrhau amser staff y Parc. |
| *Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth* - hyfforddi a chynorthwyo rhwydwaith o lysgenhadon cymunedol, ar y cyd â | £10,000 – dyfeisio rhaglen hyfforddi, recriwtio gwirfoddolwyr, darparu deunyddiau cymorth a mentora, ariannu |

| | |
|---|---|
| PLANED, all roi gwybodaeth i ymwelwyr yn ogystal â theithiau cerdded a sgyrsiau mewn lleoliadau allweddol mewn pentrefi ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol. | dod ynghyd yn flynyddol i ddathlu llwyddiannau. |
| Deunydd dehongli - darparu cyfres o ddeunydd dehongli sydd wedi'i deilwra at y diben, mewn safleoedd busnes a safleoedd cymunedol allweddol ar hyd a lled Sir Benfro i hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol. | £5,000 – dylunio, cynhyrchu a dosbarthu deunydd dehongli (yn cynnwys amser staff). |
| Diweddaru Deunyddiau 'Sioe Deithiol' - adnewyddu a diweddaru deunydd y 'sioe deithiol' ar frandio'r Parc Cenedlaethol (e.e. offer a threlars pop-yp) a ddefnyddir i hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol mewn ffeiriau pentref lleol a digwyddiadau. | £10,000 - ail-ddylunio a phrynu offer 'pop-yp' diwygiedig i gynyddu 'presenoldeb' APCAP mewn sioeau a digwyddiadau allweddol gydol y flwyddyn. |
| Llyfrgell Hwlffordd - datblygu cynnig gwasanaethau i ymwelwyr ar y cyd rhwng APCAP a CSP yn adeilad y llyfrgell newydd o'r radd flaenaf (i'w lleoli ar safle presennol Marchnad Glan-yr-afon). | £5,000 – datblygu cynllun deunydd dehongli cwbl integredig, deunyddiau dehongli a chynllun gweithredol ar gyfer gwasanaethau i ymwelwyr yn y llyfrgell newydd a reolir gan CSP. |
| Gwefan APCAP - gallem fuddsoddi i wneud gwefan APCAP yn haws i'w defnyddio, a gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i gynnal y wefan Croeso i Sir Benfro. | £20,000 – ond yn ddibynnol ar y dewis a wneir. |

Byddai'r pecyn uchod o fentrau newydd a/neu fentrau ehangu yn costi rhyw £60K y flwyddyn i'r Awdurdod ei weithredu, gyda chost un-tro am waith ar y wefan. Heb unrhyw gyllid newydd yn yr arfaeth, yr opsiwn a ffefrir ac a gyflwynir gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw i'r Awdurdod gefnogi'r rhaglenni gwaith newydd arfaethedig (a nodir uchod) drwy newid ein gweithgareddau presennol yn Ninbych-y-pysgod ac yn Nhrefdraeth.

Cynnig

Mae'r 'Gweithgor ar Ddarparu Gwybodaeth i Ymwelwyr' felly yn argymell bod yr Awdurdod yn ymrwymo i gyfnod o ymgynghori â busnesau a sefydliadau cymunedol yn Ninbych-y-pysgod ac yn Nhrefdraeth i weld a allwn gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr yn y ddau leoliad pwysig hyn mewn partneriaeth ag eraill a heb fod angen i'r Awdurdod reoli ei adeiladau canolfan ymwelwyr presennol.

Yn y pen draw, byddai'r Awdurdod yn dymuno rhoi trefniadau partneriaeth ar waith fydd yn sicrhau bod Trefdraeth a Dinbych-y-pysgod yn parhau i dderbyn gwasanaethau gwybodaeth lleol i ymwelwyr fel y gallwn ail-ddyrannu cyfran o'r gwariant presennol ar adeiladau'r Awdurdod i gynnal y pecyn o fentrau newydd (a

nodir uchod) gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth modern a mwy teg ar draws y Parc Cenedlaethol.

Rhagwelir y bydd canlyniadau'r ymgynghori yn cael eu cyflwyno gerbron yr Aelodau yn eu cyfarfod fis Tachwedd 2016 am benderfyniad. Rhagwelir y bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gweithredu cyn tymor yr haf.

Effaith Bosibl ar Staff

Mae'r prosesau sy'n ymwneud â staff wedi'u nodi ym Mholisi'r Awdurdod ar Ad-drefnu a Dileu Swyddi. Mae mecanweithiau ar waith i ymgynghori â'r staff ar lefel cynrychiolydd (gan gynnwys undebau llafur) ac ar lefel unigol ynghylch cynigion i ad-drefnu gwaith. Nod yr ymgynghori yw rhoi cyfle i'r staff ystyried y newidiadau arfaethedig, cyfrannu at gynlluniau, ac i'r rheolwyr ystyried sut i liniaru'r effeithiau posibl. Bydd penderfyniadau ynglŷn â staffio yn dilyn y prosesau ymgynghori ac yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr.

Gwaredu Eiddo

Os bydd yr Awdurdod yn datgan bod y naill neu'r llall neu'r ddau eiddo yn ddiangen at ofynion gweithredol, dylid penderfynu ar eu dyfodol yn unol â'r Polisi Rheoli Asedau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Awdurdod yn dal yr ystâd leiaf sydd ei hangen. Yn ymarferol byddai hyn yn golygu trafodaethau gyda'n landlord yn Ninbych-y-pysgod i geisio dod â'r gweddill o'n prydles galwedigaethol i ben, a gwaredu rhydd-ddaliad yr eiddo yn Nhrefdraeth o bosibl yn dilyn cyfnod o farchnata agored.

Trosolwg – Dinbych-y-pysgod

Mae canolfan Dinbych-y-pysgod yn ganolfan ymwelwyr traddodiadol gyda deunydd dehongli ychwanegol i helpu i wella ymweliad pobl â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'n ganolfan lle mae staff yn rhannu desgiau, ac mae'n creu incwm manwerthu da.

- Ymwelwyr – mae arolygon ymwelwyr CSP yn awgrymu mai'r ardal hon o Sir Benfro sydd â'r nifer uchaf o welyau yn lleol (gwestai, tai llety a safleoedd carafanau) a'r dwysedd uchaf o ymwelwyr. Mae ein harolwg ar raddfa fach yn ddiweddar yn awgrymu nad oedd bron unrhyw ymwelwyr wedi gwneud siwrnai arbennig i'r ganolfan (yn hytrach maent yn galw i mewn wrth fynd heibio o'r maes parcio cyfagos i ganol y dref) a bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarperir yn wybodaeth gyffredinol i dwristiaid (amserlenni bysiau, gwasanaethau lleol, toiledau/lleoliadau traethau ac ati). O ganlyniad, prin yw'r defnydd a wneir o'r deunydd dehongli ar y safle;
- Defnydd lleol – prin yw'r cyfarfodydd a gynhelir gyda'r trigolion lleol (mae nifer o leoliadau eraill i gynnal cyfarfodydd yn y dref);
- Staff – mae'r staff sy'n byw yn Ne Sir Benfro weithiau'n defnyddio'r swyddfa i arbed teithio i Llanion;
- Dewisiadau eraill - mae canolfan ymwelwyr y Cyngor Sir o fewn 200 llath (ger y maes parcio aml-lawr). Mae gan Ddinbych-y-pysgod amgueddfa gymunedol sydd wedi hen ymsefydlu ac sy'n derbyn 17,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Hefyd mae'r llyfrgell leol yn 'ganolfan gwybodaeth'.

Ymadael

- Mae'r eiddo wedi'i brydlesu tan 2019 felly mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dalu rhent a threthi blynyddol. Amcangyfrifir mai'r gost o ildio prydles yr Awdurdod cyn pryd a'r trethi fyddai £160K (gweler yr atodiadau am fanylion pellach). Er mai hwn fyddai'r ffigur uchaf, byddem yn ceisio cyd-drafod swm llai na hyn;
- Bydd cost y tâl ymadael yn mynd yn llai wrth i'r blynyddoedd fynd heibio;
- Y gost flynyddol net o redeg y ganolfan yw rhyw £75,000 y flwyddyn. Ar sail y gost ymadael o £160,000, drwy roi'r gorau i'r ganolfan yn ystod 2016-17, bydd yr Awdurdod yn gwrthbwyso'r gost drwy dalu llai o gostau gweithredu;
- Y dyddiad y daw contract y brydles i ben yw'r 24ain o Ragfyr 2019. Gallai'r Awdurdod ddewis dod â'r masnachu o'r safle i ben unrhyw adeg cyn y dyddiad y daw'r brydles i ben, er heb unrhyw gytundeb ildio cynnar wedi'i ddogfennu'n ffurfiol gyda'n landlord, byddai ein rhwymedigaethau i dalu rhent, trethi ac ati yn parhau tan y 24ain o Ragfyr 2019;
- Mae gwybodaeth i ymwelwyr ar gael yng Nghanolfan Groeso y Cyngor Sir ac yn Amgueddfa'r Dref, a gellir eu hategu gan brif wefan y Parc, arddangosfeydd lleol, digwyddiadau, taflenni a hyfforddiant. (Yn ogystal credir y byddem yn cyflawni mwy o ymgysylltu â'r ymwelwyr drwy fynd â'r hyn sydd gennym i'w gynnig at yr ymwelwyr - cyflwyniadau/ arddangosfeydd/ gwybodaeth mewn meysydd carafanau, gwestai, digwyddiadau ar draeth ar gyfer plant ac ati - yn hytrach na disgwyl i'r ymwelwyr ddod atom ni).
- Mae ein canolfannau yng Nghaeriw ac yn Llanion yn ddigon agos i olygu na fyddai staff yr Awdurdod sy'n byw yn ardal Dinbych-y-pysgod yn gorfod teithio'n bell i'r gwaith.
- Mae Rheolwr Dinbych-y-pysgod yn cyflawni ystod o ddyletswyddau (gan gynnwys gwneud ffilmiau, hyfforddwr gyrru, prynwr canolog, cydlynydd dosbarthu Coast-to-Coast) a bydd angen cyflawni pob un o'r rhain mewn gwahanol ffyrdd.
- Fe all fod cyfleoedd i adleoli staff presennol.

Trosolwg – Trefdraeth

Mae canolfan Trefdraeth yn ganolfan ymwelwyr traddodiadol gyda deunydd dehongli ychwanegol, yn ganolfan lle mae staff yn rhannu desgiau, ac mae'n creu incwm manwerthu da (yn enwedig o werthu llyfrau).

- Mae arolygon ymwelwyr CSP yn awgrymu mai'r ymwelwyr i'r ardal hon o Sir Benfro yw grwpiau cymdeithasol economaidd A a B yn bennaf, ymwelwyr sy'n ailymweld yn bennaf ac ymwelwyr sy'n hyddysg mewn defnyddio technoleg gwybodaeth. Mae'r arolwg ar raddfa fach a wnaed yn ddiweddar gan staff y Parc yn awgrymu nad oedd bron unrhyw ymwelwyr wedi gwneud siwrnai arbennig i'r ganolfan (yn hytrach maent yn galw i mewn wrth fynd heibio o'r maes parcio gerllaw i ganol y dref) a bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarperir yn wybodaeth gyffredinol i dwristiaid (amserlenni bysiau, gwasanaethau lleol, toiledau/lleoliadau traethau ac ati). Prin yw'r defnydd a wneir o'r deunydd dehongli ar y safle.
- Defnydd lleol – prin yw'r cyfarfodydd a gynhelir gyda'r trigolion lleol (mae nifer o leoliadau eraill i gynnal cyfarfodydd yn y dref).
- Staff – mae'r staff sy'n byw yng Ngogledd Sir Benfro yn defnyddio'r swyddfa yn rheolaidd i arbed teithio i Llanion.
- Dewisiadau eraill - mae canolfan ymwelwyr y Cyngor Sir yn Abergwaun (rhyw 8 milltir i ffwrdd) a Chanolfan Croeso Ceredigion yn Aberteifi (rhyw 10 milltir) a Chastell Henllys (rhyw 4 milltir).

- Bydd cau'r ganolfan yn golygu arbed £20,000 y flwyddyn o refeniw, a derbyn cyfalaf net am yr adeilad o fwy na £100,000.
- Fe all fod cyfleoedd i adleoli rhai o'r staff presennol.

Ymadael

- Nid yw'r Awdurdod yn ymwybodol o unrhyw reoliadau cymorth grant na materion rheoli ystadau fyddai'n atal gwerthu.
- Ni fydd strategaethau ymadael "rhannol" (megis rhannu gyda llyfrgell y Cyngor Sir, prydlesu fel Canolfan Groeso gymunedol) yn creu cyfalaf ond yn ymrwymo'r Awdurdod i reoli adeilad a darparu gwasanaeth nad oes modd ei gyfiawnhau fel blaenoriaeth yn yr hinsawdd ariannol bresennol.
- Gallai'r cyfalaf a dderbynnir o werthu Canolfan Croeso Trefdraeth gael ei ail-fuddsoddi ar wasanaethau eraill;
- Mae gwybodaeth i ymwelwyr eisoes ar gael yn Abergwaun, Castell Henllys ac yn Aberteifi gyda gwybodaeth ychwanegol ar gael ar wefan yr Awdurdod, drwy arddangosfeydd lleol, digwyddiadau, taflenni a hyfforddiant.

Ystyriaethau risg

Mae'r newidiadau arfaethedig, a gyflwynir yn y papur hwn, yn cael eu hanelu at ailddyrannu cyllid i gynnal rhaglenni gwaith diwygiedig yn ogystal ag ystod fwy cynaliadwy a theg o wasanaethau i ymwelwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Mae'r posibilrwydd o gau unrhyw gyfleuster yn fater emosiynol, ond mae rhywfaint o annhegwch mewn cael adeilad penodol ar gyfer ymwelwyr yn Ninbych-y-pysgod a Threfdraeth pan wyddwn bod dros 4.5 miliwn o ymwelwyr â Sir Benfro gydag ond rhan fechan o'r nifer hwn yn ymweld â'r ddau leoliad penodol hyn.

Y dymuniad felly yw creu gwasanaeth 'dan arweiniad y bobl', mewn partneriaeth â busnesau a chymunedau lleol, dros ardal ddaearyddol ehangach, gan sicrhau ein bod yn mynd â'n gwasanaethau ymwelwyr 'at y cwsmer' fel bod hyd yn oed mwy o ymwelwyr a thrigolion yn elwa o gael mynediad i wasanaethau'r Awdurdod, a hynny yn agosach at y cyrchfan o'u dewis. Y gobaith yw y bydd hyn yn golygu mwy o fanteision i gynulleidfa ehangach tra'n lleihau'r costau.

Cydymffurfio

Bydd y newidiadau arfaethedig i wasanaethau'r Awdurdod i ymwelwyr yn cryfhau gallu'r Awdurdod *"i annog a chefnogi datblygu cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig mewn twristiaeth a hamdden"* ac *"i warchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, celfyddydau a threftadaeth yr ardal"* fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2016/17 yr Awdurdod.

Materion Hawliau Dynol/Cydraddoldeb

Mae asesiad cychwynnol o'r effaith ar gydraddoldeb drwy ddadansoddiad sgrinio (gweler Atodiad 1) yn awgrymu nad oes angen gwneud asesiad llawn oherwydd y defnydd cyfyngedig a wneir o'r canolfannau ymwelwyr gan drigolion lleol (yn ôl tystiolaeth arolwg diweddar) yn ogystal â'r effaith gyfyngedig ar unigolion a/neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Goblygiadau Bioamrywiaeth/Arfarnu Cynaliadwyedd

Nid yw'r camau a gynigir yn y papur hwn yn gwrthdaro â Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a/neu bolisïau'r adrannau ar gadwraeth natur, newid yn yr hinsawdd a'r defnydd o adnoddau. Rhagwelir y bydd y gostyngiad mewn costau adeiladau a staff,

yn y pen draw, yn gyfle i'r Awdurdod ddarparu ystod mwy cost-effeithiol a chynaliadwy o wasanaethau i ymwelwyr.

Ystyriaethau'r Gymraeg
Mae'r cynigion yn cydymffurfio â gofynion y Rhybudd Cydymffurfio a gyflwynwyd i'r Awdurdod o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Casgliad
Mae natur newidiol yr economi ymwelwyr yn gofyn am ddulliau newydd o ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi anghenion y cwsmeriaid wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Awdurdod yn awyddus i symud oddi wrth y model traddodiadol o gael 'canolfan ymwelwyr' i ddarparu gwasanaethau, drwy fuddsoddi mewn pecyn cyffrous o fentrau newydd a gyflawnir mewn partneriaeth â'r fasnach dwristiaeth a sefydliadau cymunedol lleol.

Fodd bynnag, gall hyn ond gael ei gyflawni drwy gyfuno portffolio presennol yr Awdurdod o adeiladau gyda ffocws penodol ar gyfleusterau'r Awdurdod yn Ninbych-y-pysgod a Threfdraeth. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol felly, yn bwriadu cynnal cyfnod o ymgynghori â busnesau a sefydliadau cymunedol yn Ninbych-y-pysgod a Threfdraeth i weld a allwn ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr yn y ddau leoliad pwysig hyn mewn ffyrdd newydd.

**ARGYMHELLIAD:**
**I ymgynghori ar gynnig i newid y ffordd y mae gwasanaethau gwybodaeth yn cael eu cyflwyno yn Ninbych-y-pysgod ac yn Nhrefdraeth er mwyn buddsoddi mewn pecyn o fentrau newydd gyda'r nod o gynnal twf yr economi ymwelwyr ehangach yn Sir Benfro.**

Dogfenni Cefndir
- Amrywiol Adroddiadau a gyflwynwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddarparu Gwybodaeth i Ymwelwyr - 3 Chwefror 2016 - Presennol
- Taith Astudio'r Canolfannau - Aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddarparu Gwybodaeth i Ymwelwyr – 15 Rhagfyr 2015
- Adroddiad i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ynghylch creu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar Ddarparu Gwybodaeth i Ymwelwyr yn y dyfodol - 6 Mai 2015
- Adroddiad i'r Pwyllgor Adolygu Hamdden a Thwristiaeth - Adolygu Rheoli Twristiaeth a Chyrchfannau yn Sir Benfro - 28 Ionawr 2015
- Adroddiad i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol - Trosolwg o Weithgareddau Ymgynghori â'r Gymuned - 17 Rhagfyr 2014
- Adroddiad i'r Pwyllgor Adolygu Hamdden a Thwristiaeth - Trosolwg o Berfformiad y Gwasanaeth o Ebrill 2012 - Mawrth 2013 - 13 Tachwedd, 2013
- Adroddiad i'r Pwyllgor Adolygu Hamdden a Thwristiaeth - Adolygiad o eitemau ar yr agenda yn y dyfodol (Adroddiad Llafar) - 16 Hydref 2013
- Adroddiad i'r Pwyllgor Adolygu Hamdden a Thwristiaeth ynglŷn â Chanolfan Ymwelwyr Trefdraeth - 13 Mawrth 2013.

*(Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â James Parkin est. 4807)*

*Awdur:* *- James Parkin – Cyfarwyddwr APCAP Cyflawni a Darganfod y Parc*

*Ymgynghorwyd â:*
*- Phob Rheolwr Canolfan y Parc*
*- Tegryn Jones – Prif Weithredwr y Parc*
*- Richard Griffiths – Rheolwr Cyllid y Parc*
*- June Skilton – Rheolwr Adnoddau Dynol y Parc*
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Parc ar Ddarparu Gwybodaeth i Ymwelwyr
*- Martin White – Pennaeth Adfywio Cyngor Sir Penfro*
*- Alan Turner – Rheolwr Marchnata Twristiaeth Cyngor Sir Penfro*
*- Mike Cavanagh – Pennaeth Gwasanaethau Diwylliannol Cyngor Sir Penfro*
*- Y Tîm Staff – Twristiaeth Sir Benfro*

**ATODIAD 1**

## Data Ariannol Trefdraeth

| | | |
|---|---|---|
| **Arbedion Refeniw Blynyddol** | | |
| | Costau gweithredu blynyddol net | £19,000 |
| | Cynnal-a-chadw blynyddol | £2,000 |
| | | **£21,000** |
| **Derbynion Cyfalaf (NET** | Enillion o'r gwerthu (yn llai o'r costau gwerthu) | £100,000 |
| | Yn llai o ddileu swyddi | -£15,000 |
| | | **£85,000** |

## Data Ariannol Dinbych-y-pysgod

| | | |
|---|---|---|
| **Arbedion Refeniw Blynyddol** | | |
| | Costau gweithredu blynyddol net | £72,000 |
| | Cynnal-a-chadw blynyddol | £2,000 |
| | | **£73,000** |
| **Gwariant Cyfalaf** | Setlo'r Brydles a'r Trethi | -£100,000 * |
| | Dileu Swyddi | -£50,000 |
| | Gwacau'r adeilad ac Adleoli | -£10,000 |
| | | **-£160,000** |

* Efallai y gellir negodi costau setlo'n gynnar ond yn annhebygol felly mae'r ffigurau wedi'u seilio ar drethi llawn a'r rhwymedigaeth trethi

## Atodiad 2 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Sgrinio Effaith - Cydraddoldeb

### Sgrinio ar gyfer perthnasedd

Sgrinio yw ymarferiad byr, sydyn sy'n gymorth i bennu perthnasedd; y nod yw penderfynu a yw asesiad effaith llawn yn briodol. Mae hyn yn helpu'r Awdurdod i ganolbwyntio ei ymdrechion yn effeithiol.

| |
|---|
| Disgrifiwch y polisi, yr arferion, y cynllun, yr adolygu ac ati yr ydych yn ei sgrinio:<br>Ymgynghori ar gynnig i newid y ffordd y mae gwasanaethau gwybodaeth yn cael eu darparu yn Ninbych-y-pysgod ac yn Nhrefdraeth er mwyn buddsoddi mewn pecyn o fentrau newydd sydd â’r nod o gynnal twf yr economi ymwelwyr ehangach yn Sir Benfro. |

| |
|---|
| Sgrinio wedi’i gwblhau gan (enw, teitl swydd a dyddiad): James Parkin, Cyfarwyddwr Cyflawni a Darganfod, 20[fed] Gorffennaf 2016<br>(Noder y dylai’r sgrinio gael ei wneud gan swyddog sy’n deall y maes polisi yn dda.) |

| Cwestiynau i'w hystyried | Ydy/Na | Sylwadau |
|---|---|---|
| A yw'r polisi yn effeithio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, gweithwyr neu ar y gymuned ehangach?<br>(ac felly yn debygol o gael effaith sylweddol ar grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig).<br>Bydd perthnasedd polisi yn dibynnu nid yn unig ar nifer y rhai yr effeithir arnynt, ond hefyd pa mor arwyddocaol yw’r effaith arnynt. | Ydy | Gall cau Canolfannau Ymwelwyr Dinbych-y-pysgod a Threfdraeth effeithio ar rhyw 70,000 o ymwelwyr sydd ar hyn o bryd yn defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn y ddwy ganolfan.<br><br>Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod arolwg ymwelwyr a wnaed yn ddiweddar (2015) yn awgrymu mai ychydig iawn o drigolion lleol sy’n defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yng Nghanolfannau Ymwelwyr Dinbych-y-pysgod a Threfdraeth.<br><br>Yn y pen draw, bernir bod bwriad yr Awdurdod i fuddsoddi mewn modelau newydd o ddarparu gwasanaethau yn gwneud iawn am y posibilrwydd o gau’r ddwy ganolfan drwy ddarparu gwasanaethau mwy lleol ar draws nifer o safleoedd yn y Parc Cenedlaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| A yw'n brif bolisi?<br>h.y. polisi sy'n effeithio'n sylweddol ar y modd y mae swyddogaethau yn cael eu cyflawni o ran pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. | Na | Nac ydy, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn golygu newid mawr mewn polisi ond yn hytrach mae'n golygu symud i fodel newydd o ddarparu gwasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr. |
| A fydd yn cael effaith sylweddol ar y modd y mae sefydliadau eraill yn gweithredu o ran cydraddoldeb?<br>(Er enghraifft, strategaeth genedlaethol neu feini prawf arolygu) | Na | Na fydd, er y gall fod effaith 'cyfansawdd' o gau Canolfannau Croeso a/neu leihau oriau agor ar draws Sir Benfro. Os rhywbeth, dylai ein gwasanaethau fod yn fwy ar wasgar dros ardaloedd daearyddol ehangach yn hytrach na chael eu canolbwyntio mewn dau le yn unig, yn Ninbych-y-pysgod ac yn Nhrefdraeth. |
| A yw'n ymwneud â swyddogaethau y mae gweithgareddau ymgysylltu blaenorol wedi'u clustnodi yn rhai pwysig i nodweddion penodol? | Na | Nac ydy hyd y gwn - hefyd rwyf wedi holi'r staff yn fewnol. |
| A yw'n berthnasol i amcanion a chanlyniadau cydraddoldeb yr Awdurdod? | | Mae canlyniadau cydraddoldeb yr Awdurdod wedi'u nodi isod (fel y'u nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020)…<br><br>Parhau i gael gwared ar rwystrau y gellir eu clustnodi ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Awdurdod.<br><br>Hyrwyddo lefelau uwch o gyfranogiad gan gymunedau a rhanddeiliaid eraill yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr Awdurdod.<br><br>Datblygu lefel o ddealltwriaeth o faterion cydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder ymysg staff ac aelodau fel sy'n addas i sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn gweithlu'r Awdurdod. |
| A yw'n berthnasol i faes lle gwyddys bod anghydraddoldeb? | Na | Nid oes unrhyw dystiolaeth bod pobl sydd â 'nodweddion |

| | | |
|---|---|---|
| (Er enghraifft, mynediad pobl anabl at drafnidiaeth gyhoeddus; y bwlch cyflog rhwng y rhywiau; ac ati.) | | gwarchodedig' yn defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir drwy ein Canolfannau Ymwelwyr i raddau mwy nac i raddau llai nag mewn unrhyw le arall yn y Parc Cenedlaethol. O ganlyniad, dylai'r camau lliniaru a amlygir yn adroddiad y pwyllgor sicrhau bod pobl sydd â 'nodweddion gwarchodedig' yn derbyn yr un lefel o fynediad at wasanaethau drwy'r model(au) newydd arfaethedig, ag y byddent ar hyn o bryd. |
| A yw'n berthnasol i bolisi lle mae cryn bosibilrwydd o leihau anghydraddoldebau neu wella canlyniadau?<br>(Er enghraifft, cynyddu'r nifer o fyfyrwyr benywaidd sy'n mynd ar gyrsiau dan hyfforddiant) | Na | Nac ydy. Dim ond lleoliad ffisegol adeilad sy'n gymorth i wneud mynediad i wasanaethau yn haws i drigolion lleol yn yr achos hwn. Fodd bynnag, mae'r dull presennol ond o fudd i drigolion Dinbych-y-pysgod a Threfdraeth heb unrhyw fantais i breswylwyr o gymunedau eraill yn y Parc Cenedlaethol. O ganlyniad, dylai symud tuag at wasanaeth mwy ar wasgar yn ddaearyddol olygu gwasanaeth tecach i bawb yn y tymor hir. |
| A yw'n berthnasol i faes lle mae diffyg ymchwil a gyhoeddwyd neu dystiolaeth arall? | Ydy | Ydy, yn yr ystyr mai prin iawn yw'r dystiolaeth (naill ai yn lleol a/neu yn genedlaethol) ynglŷn â'r defnydd a wneir o'r gwasanaethau ymwelwyr gan bobl sydd â 'nodweddion gwarchodedig'. |

Cymeradwywyd gan Bennaeth y Gwasanaeth: Tegryn Jones

A oes angen Asesiad effaith llawn? Nac oes

Pwy fydd yn cynnal yr asesiad effaith ……

| | | |
|---|---|---|
| Enw: James Parkin | Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Cyflawni a Darganfod | Dyddiad: 27ain Gorffennaf 2016 |

**A fyddech gystal â chynnwys y ffurflen wedi'i llenwi ac unrhyw Adroddiad drafft Pwyllgor yr Awdurdod Parc Cenedlaethol**

Nodiadau:

**Deddf Cydraddoldeb**

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus dalu sylw dyledus i'r angen am:

1. ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r un nodwedd
3. meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r un nodwedd.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil - gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred - gan gynnwys diffyg cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'n berthnasol i briodas ac i bartneriaeth sifil, ond dim ond o ran y gofyniad i ddiddymu gwahaniaethu mewn cyflogaeth.